CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
CYFARFOD / MEETING 4/11/2013

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs S Jones, Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams,Mr B Veevers a Mr R G Parry

PRESENT: Chairman Mrs S Jones, Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams,Mr B Veevers and Mr R G Parry

YMDDIHEURIADAU: Mrs H Williams a Ms M Williams.

APOLOGIES: Mrs H Williams and Ms M Williams.

COFNODION: Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10/10/2013 yn gofnod cywir.

MINUTES: The minutes of the meeting held on 10/10/2013 were accepted as true minutes.

MATERION YN CODI:

1. Gwefan. Y wefan yn awr wedi ei gosod ac yn gweithredu. Penderfynwyd gofyn i Mr Neil Summers roi linc i'r Heddlu Cymunedol ar y wefan.

2. Sul y Coffa. Llythyr oddi wrth y Llu Awyr yn Fali yn cadarnhau y bydd cynrychiolydd yn bresennol yn y gwasanaeth. Yr Heddlu wedi ymweld â'r Clerc i gadarnhau y byddant yn bresennol ger y Capel a ger y cloc.

3. Prosiect "Tidy Towns". Y gwaith yn y Cae Chwarae Plant i ddechrau yn ystod mis Tachwedd.

4. Prydles Hen Gae Chwarae Dafarn Groes. Y brydles yn dod i ben ar y 13/11/2013. Cais oddi wrth Mr K Williams am gael rhentu'r cae am 11 mis arall. Penderfynwyd caniatáu prydles newydd i Mr Williams, yn dechrau o'r 13/12/2013 hyd at 13/11/2014.

MATTERS ARISING:

1. Website. The website now up and running. It was decided to ask Mr Neil Summers to put a link to the Community Police on the website.

2. Remembrance Sunday. Letter from RAF Valley confirming that a representative will be present at the service. The Police had visited the Clerk to confirm their presence by the Chapel and by the clock.

3. "Tidy Towns" Project. The work on the Children's Playing Field to commence during November.

4. Lease on the Old Playing Field at Dafarn Groes. The least coming to an end on the 13/11/2013. A request received from Mr K Williams to rent the field for a further 11 months. It was decided to allow a new lease to Mr Williams, commencing on the 13/12/13 up until 13/11/2014..

GOHEBIAETH:

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Bil Tai (Cymru). Derbyn er gwybodaeth.

2. Cyngor Sir Ynys Môn.

CORRESPONDENCE:

1. National Assembly for Wales. Communities, Equality and Local Government Committee. Housing (Wales) Bill. For information.

2. Isle of Anglesey County Council.

Gwybodaeth am Ddiwrnod Cynaliadwyedd Plas Newydd, i'w gynnal dydd Iau 13 Mawrth 2014.

3. Celtic Array - Fferm wynt Rhiannon. Diweddariad byr ar y prosiect uchod. Celtic Array wedi penderfynu gohirio lansio ail gam eu hymgynghoriad statudol er mwyn rhoi mwy o amser i asesu eu hopsiynau .

4. Un Llais Cymru.

(a) Cymru'n Cofio 1914-1918. Carwyn Jones, Y Prif Weinidog, wedi cyhoeddi Fframwaith i Gymru ar gyfer Coffâd y Rhyfel Mawr. Manylion i'w gweld ar y we. Y mater o goffau i'w roi ar Agenda mis Ionawr. Mrs Edna Jones i gael gair â'r Prifathro ynglŷn ag unrhyw fwriad sydd gan yr ysgol ar gyfer y coffâd.

(b) Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i'w weld ar y we**.**

(c) Ymgynghoriad ynghylch cyflwyno system tabl prisio ar gyfer iawndal TB Gwartheg. Er gwybodaeth.

(d) Cymunedau ar wahân. Copi o ohebiaeth rhwng Un Llais Cymru a'r Mobile Operators Association a hefyd rhwng Un Llais Cymru a BT yn dilyn problem a ddigwyddodd yn Nyffryn Manafon ym Maldwyn.

(e) Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gwybodaeth fod y Cynghorydd Mike Harriman yn fodlon i gael ei ail-ethol i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

(f) Copi o Reoliadau Ariannol newydd wedi'i diweddaru. Er gwybodaeth.

(g) Adolygiad o Ddatganiadau Technegol Rhanbarthol Pwyllgorau Gwaith Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru - manylion llawn o'r ymgynghoriad cyhoeddus i'w cael ar y wefan yr RAWP.

(h) Cronfa Natur Llywodraeth

Information regarding Plas Newydd Sustainability Day to be held on Thursday 13 March 2014.

3. Celtic Array – Rhiannon Wind Farm. Brief update on on the above project. Celtic Array has decided to push back the launch of the second stage of their statutory consultation in order to allow more time to asses their project options.

4. One Voice Wales.

(a) Wales Remembers 1914-1918. The Prime Minister, Carwyn Jones, has issued a Framework Programme for Wales's Commemoration of the Great War. Details to be found on the website. The matter of remembrance to be placed on the Agenda for the January meeting. Mrs Edna Jones to speak to the Headmaster to see what intention the school has for the remembrance.

(b) Statement by the Minister for Natural Resource and Food to be found on the website..

© Consultation on the introduction of t table valuation system for Bovine TB compensation. For information

(d) Isolated Communities. Copy of correspondence between One Voice Wales and the Mobile Operators Association and between One Voice Wales and BT following a problem in Manafon Valley in Maldwyn.

(e) Betsi Cadwaladr University Health Board Stakeholder Reference Group. Information that Councillor Mike Harriman is willing to be re-elected on to the Betsi Cadwaladr Health Board.

(f) Copy of the new updated Financial Regulations . For information

(g) Review of the Regional Technical Statements of the North and South Wales Regional Aggregates Working Parties – full details of the public consultation to be found on the RAWP website.

(h) Welsh Government Nature

Cymru. Y Llywodraeth yn y broses o ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y defnydd o'r arian yn eu Cronfa Natur newydd sydd werth £6 miliwn. Bydd y Swyddog Datblygu yn mynychu digwyddiad yn Llandudno i drafod syniadau.

(i) Swyddfa Archwilio Cymru – Canllawiau ar ofynion Archwilio. Copi o sleidiau a ddefnyddiwyd mewn cyflwyniad diweddar i Bwyllgor Ardal Sir Fynwy. Er wybodaeth.

5. Cyngor Sir Ynys Môn.

(a) Swyddog Datblygu Chwarae - Arwyddion Di-fwg mewn parciau. Y Cyngor Cymuned yn fodlon i'r arwyddion gael eu gosod ym Maes Chwarae Plant Maes Meurig.

(b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Rhybudd Derbyn Cais i amrywio amod (14) (dirgryniad tir) o ganiatâd cynllunio 48LPA627A\CC er mwyn bod yn unol â'r cyfarwyddyd polisi cynllunio presennol yn Chwarel Cae'r Glaw. Y cais yn gofyn am i'r chwythiadau ddod i lawr o 10mm i 6mm PPV a chwythiadau unigol i lawr o 12mm i 10mm PPV.

6. Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr Awst 2014. Cais am gyfraniad. Penderfynu peidio cyfrannu.

7. Cymunedau'n Gyntaf Môn. Cynnig gwasanaeth Archwilio a Chynnal Offer Chwarae i gynghorau Tref a Chymunedau ynghyd a gwasanaeth Torri Gwair a Chynnal a Chadw Cyffredinol. Mr B Veevers i ddod a'r wybodaeth ynglŷn ag Archwilio a Chynnal Offer Chwarae i sylw'r Pwyllgor Maes Chwarae Plant.

8. War Memorials Trust. Gwybodaeth am eu gwaith.

ARIANNOL:

1. Anfonebau oddi wrth: Cymen

Funding. The Government in the process of consulting on the use of its new £6 Nature Fund. The Development Officer will be attending an event in Llandudno to discuss ideas.

(i) Wales Audit Office – Guidance on Auditing Requirements. Copy of slides used In a recent presentation to the Monmouthshire Area Committee. For information.

5. Isle of Anglesey County Council.

(a) Play Development Officer – Smokefree signs in Parks. The Community Council are happy for the signs to be placed in the Children's Playing Field at Maes Meurig.

(b) Town and Country Planning Act 1990. Notice of Receipt of Application to vary condition (14) (ground cibrationn) from planning permission 48LPA627A\CC so as to be in accordance with current planning policy guidance at Cae'r Glaw Quarry. The application asks for the blasts to be reduced from 10mm to 6mm PPV and individual blasts reduced from 12mm to 10mm PPV.

6. National Eisteddfod of Wales, Carmarthenshire August 2014. Application for donation. It was decided not to donate.

7. Anglesey Communities First. Offering Town and Community Council an Inspecting and Maintaining Playing Equipment service together with Grass cutting and General Maintenance service. Mr Veevers to bring the information regarding Inspecting and Maintaining Playing Equipment to the attention of the Children's Playing Field Committee.

8. War Memorials Trust. Information regarding their work.

FINANCIAL:

1. Invoices received from: Cymen

£145.44 am gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod mis Hydref; **D E Parry £730.00** am gynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus am y flwyddyn 2012/13; **Cyngor Sir Ynys Môn £135.00** costau etholiad diwrthwynebiad**; Cyflog y Clerc am y 3ydd chwarter £380.00 ynghyd â £95.00 PAYE.**

£145.44 for interpreting at the October meeting**; D E Parry £730.00** for maintaining the public footpaths 2012/13**; Isle of Anglesey County Council £135.00** costs of unopposed election; **Clerk's wages for the 3rd quarter £380.00 together with £95.00 PAYE.**

UNRHYW FATER ARALL:

1. Cod Ymddygiad. Daeth y Cadeirydd ag Adran 5:10 y Cyfansoddiad - protocol ar gyfathrebu cymdeithasol i sylw'r Cynghorwyr a rhoddwyd copi arall o'r Cod Ymddygiad i bob Cynghorydd.

ANY OTHER MATTERS:

1. Code of Conduct. The Chairman brought Section 5:10 of the Constitution – protocol on social media to the attention of the Councillors, and a further copy of the Code of Conduct was given to each Councillor**.**

2. Llwybr Pen Clawdd. Daeth i sylw'r Cyngor fod y giât wedi diflannu oddi ar y llwybr uchod, a bod y mater wedi ei riportio i'r Cyngor Sir.

2. Penclawdd Footpath. It was brought to the Council's attention that the gate had disappeared from the above footpath, and that the matter had been reported to the County Council.

3. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Dywedwyd wrth y Cyngor ei fod i dderbyn llythyr am seminar i'w drefnu gan y Cyngor Sir yn ymwneud â Safleoedd Tai Posib dan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Dywedodd Mrs C Lloyd, Ms M E Evans a Mrs S Roberts bod ganddynt ddiddordeb i fynychu'r seminar. Pan ddaw'r wybodaeth i law, y Clerc i e-bostio'r manylion at y tair.

3. Joint Local Development Plan. The Council were informed that it was to receive a letter regarding a seminar arranged by the County Council regarding Possible Housing Sites under the Joint Local Development Plant. Mrs C.Lloyd, Ms M E Evans and Mrs S Roberts said that they would be interested in attending. When the information regarding the seminar is to hand, the Clerk to email details of the seminar to the three.

CYFARFOD NESAF i'w gynnal nos Lun 6 Ionawr 2014.

NEXT MEETING to be held Monday 6 January 2014.